

Annwyl Brif Weinidog,

Rydym yn ysgrifennu atoch chi heddiw o fforwm polisi iechyd a gofal cymdeithasol Cymru, cynghrair o sefydliadau a gynhelir gan Gonffederasiwn GIG Cymru.

Mae'r pandemig COVID-19 wedi amlygu a dwysau anghydraddoldebau iechyd presennol – hynny yw, y gwahaniaethau annheg y gallem eu hosgoi mewn canlyniadau iechyd a lles ar draws y boblogaeth, a rhwng gwahanol grwpiau mewn cymdeithas.

Mae mynd i'r afael ag achosion cymdeithasol anghydraddoldebau iechyd yn bwysicach nag erioed; nid mater i fynd i'r afael ag ef pan fydd y pandemig y tu ôl i ni yw hwn. Fel mae [adroddiad diweddar Pwyllgor Cyllid y Senedd ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22](#) yn nodi:

'[efallai] na fydd gwir faint y goblygiadau ar gyfer iechyd a lles pobl yng Nghymru yn amlwg am rai blynyddoedd. Mae'r argyfwng wedi gwaethygu materion sylfaenol, gan gynnwys ... anghydraddoldebau iechyd parhaus ledled Cymru'

Dyna pam rydym ni'n gofyn ichi ymrwymo i strategaeth draws-lywodraethol i leihau anghydraddoldebau iechyd.

Ym mis Hydref 2020, [galwodd fforwm polisi iechyd a gofal cymdeithasol Cymru am](#) 'ymateb traws-lywodraethol, sector cyfan i anghydraddoldebau iechyd corfforol a meddyliol i greu amgylchedd economaidd, cymdeithasol, naturiol ac amgylchedd yn y cartref sy'n cefnogi llesiant cadarnhaol drwy gydol oes pawb yng Nghymru, a lleihau anghydraddoldebau ar gyfer y genhedlaeth nesaf'.

Mae cefnogaeth eang i'r dull hwn ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Dylai gynnwys sicrhau bod gan bawb yng Nghymru gartref cynnes, diogel o ansawdd da, sy'n gallu addasu wrth i'w hanghenion newid. Dylid rhoi blaenoriaeth i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a gweithredu ar farn a phrofiadau cymunedau a phobl sy'n cael canlyniadau anghyfartal, neu'n wynebu heriau o ran cael gafael ar wasanaethau.

Mae angen strategaeth ehangach oherwydd mae anghydraddoldeb iechyd yn ganlyniad i nifer o ffactorau amrywiol. Ni ddylai fod yn rhan o bortffolio un Gweinidog yn unig; dylid rhoi blaenoriaeth i fynd i'r afael â hyn yn holl weithgarwch y llywodraeth, a dylai fod yn flaenoriaeth i bob sefydliad.

Mae degawd wedi mynd heibio ers i Lywodraeth Cymru gynhyrchu [Canlyniadau Iechyd Tecach i Bawb](#). Rydyn ni'n ymwybodol bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn arwain gwaith atal drwy [Creu Cymru Iachach](#), ond dydyn ni ddim yn credu fod gan ofal cymdeithasol a'r GIG yr hyn sydd ei angen i wneud pob un o'r newidiadau radical eraill rydyn ni'n gwybod sy'n hanfodol, gan gynnwys gweithredu i fynd i'r afael â thai gwael, mynediad at addysg, a lleihau tlodi, sy'n berthnasol i amrywiaeth o bortffolios y llywodraeth.

Fel y byddwch efallai'n gwybod, mae eich cyd-aelodau Llafur yn Lloegr wedi cefnogi'r cais hwn. Mae Jonathan Ashworth AS, Ysgrifennydd Gwladol yr Wrthblaid dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, wedi galw'n gyhoeddus am strategaeth anghydraddoldebau iechyd traws-lywodraethol yn San Steffan. Rydym yn eich annog i wneud yr un penderfyniad yng Nghymru wrth i ni nesáu at etholiad nesaf y Senedd i sicrhau bod Cymru'n arwain y ffordd ym maes anghydraddoldebau iechyd yn y DU.

Mae'n allweddol bod pob gweithiwr proffesiynol a sefydliad ledled Cymru yn cydweithio a gweithio'n integredig, gan gynnwys y rheini sy'n gweithio ym maes iechyd, llywodraeth leol, addysg

a'r amgylchedd. Gyda'n gilydd, rhaid i ni greu amgylchedd economaidd, cymdeithasol ac amgylchedd naturiol sy'n cefnogi iechyd a lles da, ac yn lleihau anghydraddoldebau iechyd.

Mae ymchwil yn dangos bod [ffactorau cymdeithasol yn gallu bod yn bwysicach na dewisiadau gofal iechyd neu ffordd o fyw](#) o ran dylanwadu ar iechyd – sy'n cyfrif am rhwng 30-55% o ganlyniadau iechyd – ac [mae uwch glinigwyr yn GIG Cymru wedi cydnabod yn ddiweddar](#) mai 'tlodi ac anghydraddoldeb iechyd' yw'r rhesymau dros gyfraddau marwolaeth uchel yn sgil COVID-19 yng nghymoedd de Cymru.

Mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi dangos bod y [ffactorau canlynol yn dylanwadu ar wahaniaethau o ran iechyd](#):

- Mae 35% yn gysylltiedig â diogelwch incwm ac amddiffyniadau cymdeithasol
- Mae 29% yn gysylltiedig ag amodau byw
- Mae 19% yn gysylltiedig â chyfalaf cymdeithasol a dynol
- Mae 10% yn gysylltiedig â gwasanaethau iechyd
- Mae 7% yn gysylltiedig â chyflogaeth ac amodau gwaith.

Canfu adroddiad Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau y Senedd [ar anghydraddoldeb a'r pandemig](#):

'Mae cyfraddau marwolaethau coronafeirws yn uwch ymysg dynion; pobl hŷn; pobl o grwpiau pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig; pobl â chyflyrau iechyd presennol; pobl anabl a phobl sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig. Mae'n rhaid targedu'r adferiad [wedi'r pandemig] at y rheini sydd fwyaf ar eu colled, ac mae'n rhaid defnyddio'r cyfle hwn i unioni anghydraddoldebau presennol.'

Mewn arolwg diweddar a gomisiynwyd gan Goleg Brenhinol y Meddygon (RCP) ar gyfer lansio [Cynghrair Anghydraddoldebau Iechyd y DU](#), canfuwyd:

'Roedd 82% o'r ymatebwyr yng Nghymru eisiau gweld strategaeth gan y llywodraeth i leihau anghydraddoldebau iechyd ac roedd 61% yn meddwl y dylai llywodraethau ledled y DU wneud mwy i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Mae 63% yn pryderu bod y bwlch iechyd rhwng ardaloedd cyfoethog a difreintiedig yn tyfu. Mae 82% yn meddwl y dylai pob rhan o'r llywodraeth orfod ystyried effaith eu polisiau ar bobl sy'n llai cefnog, gyda mwy na hanner yn cytuno'n gryf. Nododd 25% o'r ymatebwyr mai cyflyrau iechyd hirdymor oedd yr anghydraddoldeb iechyd roeddent yn poeni fwyaf amdanynt, gyda 17% yn nodi iechyd meddwl gwael.'

[Arolwg barn Yonder/Populus, Hydref 2020]

Mae'r canlyniadau hyn yn dangos bod pryder mawr ymysg y cyhoedd ynghylch anghydraddoldebau iechyd ac mae cefnogaeth aruthrol o blaid gweithredu ledled Cymru. Felly, rydym yn galw arnoch chi a'ch llywodraeth i ymrwmo i weithredu ar y cyd i ddatblygu dull gweithredu traws-lywodraethol gyda chynllun gweithredu a cherrig milltir clir, gan weithio ar y cyd â phartneriaid ar draws pob sector.

Edrychwn ymlaen at eich ymateb.

Diolch a dymuniadau gorau,

Dr Olwen Williams OBE
Is-lywydd Cymru, Coleg Brenhinol y Meddygon

Dai Davies
Arweinydd ymarfer proffesiynol (Cymru), Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol

Darren Hughes
Cyfarwyddwr, Confederasiwn GIG Cymru

Helen Whyley RN MA
Cyfarwyddwr, Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru

Lowri Griffiths
Pennaeth polisi a materion cyhoeddus, Marie Curie (Cymru)

Dr Richard Greville
Cyfarwyddwr, Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain Cymru a'r Gadwyn Gyflenwi a Dosbarthu

Dr Mair Hopkins
Cyd-gadeirydd, Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol

Yr Athro Peter Saul
Cyd-gadeirydd, Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol

Judi Rhys MBE
Prif weithredwr, Gofal Cancer Tenovus

Catrin Edwards
Rheolwr polisi ac eiriolaeth Cymru, Hospice UK

Deborah Shaffer
Sylfaenydd a phrif weithredwr, Fair Treatment for the Women of Wales

Sian Guest
Rheolwr polisi a materion cyhoeddus (Cymru), Cymdeithas Clefyd Niwronau Motor

Ann Tate
Prif weithredwr, Ymchwil Cancer Cymru

Adam Fletcher
Pennaeth BHF Cymru, Sefydliad Prydeinig y Galon

Sarah Stone
Cyfarwyddwr gweithredol Cymru, Samariaid Cymru

Joseph Carter
Pennaeth Asthma UK a Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint yng Nghymru

Rachel Williams
Rheolwr polisi, ymgyrchoedd a chyfathrebu (Cymru), Parkinson's UK Cymru

Allison Hulmes
Cyfarwyddwr cenedlaethol Cymru, Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain

Mr Richard Johnson,
Cyfarwyddwr Cymru, Coleg Brenhinol Llawfeddygon Lloegr

Yr Athro Mike Griffin
Llywydd, Coleg Brenhinol Llawfeddygon Caeredin

Lynne Hughes
Cyfarwyddwr y wlad (Cymru), Cymdeithas MS

Dr David Bailey
Cadeirydd, Cyngor Cymdeithas Feddygol Prydain Cymru

Steve Jamieson
Prif weithredwr ac ysgrifennydd cyffredinol, Coleg Podiatreg

Katie Chappelle
Cyfarwyddwr cyswllt (Cymru), Y Gymdeithas Strôc

Rhiannon Williams
Dirprwy gadeirydd, Bwrdd Cymdeithas Ddeieteg Prydain Cymru

Elen Jones
Cyfarwyddwr Cymru, Cymdeithas Fferyllol Frenhinol

Nicola Stubbins
Llywydd, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

Ansley Workman
Cyfarwyddwr, Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall Cymru

Zoe Richards
Prif weithredwr, Anabledd Dysgu Cymru

Dr Victoria Winckler
Cyfarwyddwr, Sefydliad Bevan

Stuart Ropke
Prif weithredwr, Tai Cymunedol Cymru

Dr Katie Fergus
Swyddog polisi pwyllgor gweithredol, Coleg Brenhinol y Seiciatryddion Cymru

Jon Antoniazzi
Rheolwr polisi a materion cyhoeddus (Cymru), Cymorth Cancer Macmillan

Naomi Phillips
Cyfarwyddwr polisi ac eiriolaeth, y Groes Goch Brydeinig